# Cynhyrchwyd ar ran: AQA, CCEA, OCR, Pearson a CBAC

# Canllawiau i ganolfannau ar oruchwylio o bell

## Defnyddio goruchwylio o bell

Mae'r cyrff dyfarnu wedi cytuno y gallai goruchwylio arholiadau o bell fod yn dderbyniol mewn achosion eithriadol i gefnogi ymgeisydd na fyddai fel arall yn gallu sefyll ei arholiadau.

## Mynd i'r afael â heriau i ymgeiswyr unigol

Lluniwyd yr egwyddorion canlynol i alluogi ymgeiswyr i gael y cyfle gorau i dderbyn gradd am gymhwyster ac i gynnal uniondeb yr arholiad. Dylid cadw atynt yn y drefn a nodir.

- Lle y bo'n bosibl, dylid cwblhau pob arholiad dan yr amodau priodol ac yn y ganolfan. Mae hyn yn gwarchod buddiannau'r ymgeisydd, y ganolfan ac uniondeb y system arholiadau. Disgwylir felly i ganolfannau wneud pob ymdrech i sicrhau y gall ymgeiswyr sefyll yr arholiadau sydd wedi'u trefnu ar eu cyfer yn y ganolfan.

- Os nad yw ymgeisydd yn gallu sefyll arholiadau yn y ganolfan, mae modd prosesu cais am drefniant safle arall e.e. cartref yr ymgeisydd neu mewn ysbyty. Byddai goruchwyliwr yn cael ei anfon i'r safle arall i oruchwylio'r arholiad wyneb yn wyneb.

- Os nad yw'r un o'r uchod yn bosibl, ond bod rhai arholiadau o fewn y cymhwyster eisoes wedi'u cwblhau, neu fod modd eu cwblhau, gradd wedi'i chyfrifo (enw arall ar hyn yw 'aegrotat') fyddai'r ffordd fwyaf priodol i sicrhau nad yw ymgeisydd unigol dan anfantais. Rhaid bodloni'r meini prawf cyhoeddedig ar gyfer ystyriaeth arbennig. Rhaid i ganolfannau wneud cais ar gyfer ystyriaeth arbennig yn y ffordd arferol.

- Os nad yw ymgeisydd yn gallu sefyll unrhyw arholiadau yn y gyfres, dylai eu sefyll mewn cyfres ddiweddarach lle y bo'n bosibl.

Gellir caniatáu goruchwylio o bell ar gyfer ymgeisydd unigol mewn achosion eithriadol iawn. Dim ond pan fydd corff dyfarnu wedi cymeradwyo'r trefniant y gellir defnyddio goruchwylio o bell. Ni fydd yn cael ei gymeradwyo ar ddiwrnod arholiad. Dim ond pan fydd y corff dyfarnu'n penderfynu y gellir cynnal uniondeb a diogelwch yr arholiad y bydd goruchwylio o bell yn cael ei gymeradwyo.

## Ystyriaethau i'r ganolfan

Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau y gellir cynnal arholiad wedi'i oruchwylio o bell yn unol â'r gofynion sydd i'w gweld yn nogfen y CGC Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau. Drwy

gyflwyno cais ar-lein am oruchwylio o bell, mae pennaeth y ganolfan yn cadarnhau y bydd yr arholiad(au) yn cael ei gynnal/eu cynnal yn unol â'r gofynion sydd i'w gweld yn y ddogfen hon gan gynnwys yr holl egwyddorion canlynol:

1. Mae gan y ganolfan a'r ymgeisydd fynediad at y dechnoleg briodol i oruchwylio'r arholiad o bell.

2. Mae staff y ganolfan a'r ymgeisydd wedi cael hyfforddiant priodol fel eu bod yn gyfarwydd â'r dechnoleg a fydd yn goruchwylio'r arholiad, y gweithdrefnau i'w dilyn a'r amodau sy'n angenrheidiol i sicrhau uniondeb yr arholiad.

3. Bydd yr ymgeisydd yn defnyddio unrhyw drefniadau mynediad wedi'u cymeradwyo yn ystod yr arholiad.

4. Rhaid i'r ganolfan allu cyflwyno copi o'r papur cwestiynau yn ddiogel i'r ymgeisydd mewn ffordd nad yw'n cyfaddawdu diogelwch yr arholiad. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i aelod o staff y ganolfan fod ar gael i fynd â'r papur cwestiynau i'r ymgeisydd a'i roi iddo ar gyfer ei agor yn syth cyn dechrau'r arholiad. Os nad yw'n bosibl darparu copi o'r papur cwestiynau, rhaid gofyn i'r corff dyfarnu am ganiatâd i ddarparu papur cwestiynau electronig ar gyfer yr ymgeisydd.

5. Rhaid i'r ymgeisydd gwblhau'r arholiad ar yr un pryd ag ymgeiswyr eraill sy'n sefyll yr arholiad, oni bai ei fod wedi cael cyfarwyddyd fel arall gan y corff dyfarnu.

6. Rhaid i'r ymgeisydd gwblhau'r arholiad o fewn yr hyd penodedig oni bai bod ganddo hawl i amser ychwanegol fel trefniant mynediad wedi'i gymeradwyo.

7. Cyn dechrau'r arholiad, rhaid i'r ymgeisydd allu dangos i'r goruchwyliwr o bell fod yr ystafell y mae’n sefyll yr arholiad ynddi yn briodol ac nad oes deunyddiau heb eu hawdurdodi.

8. Rhaid i amgylchedd yr ymgeisydd fod yn addas. Y ganolfan sy'n gyfrifol am asesu unrhyw risgiau diogelu.

   Dylai'r ystafell gael ei hawyru a'i goleuo'n addas, heb unrhyw sŵn nac ymyriadau. Dylai fod yn breifat heb unrhyw ddeunyddiau gweladwy a allai roi mantais annheg i'r ymgeisydd.

   Mae'n rhaid i'r ymgeisydd fod â chysylltiad dibynadwy â’r rhyngrwyd.

9. Rhaid i’r goruchwyliwr arsylwi’r ymgeisydd yn cwblhau’r arholiad yn fyw, gan ddefnyddio fideo a sain (e.e. cyfarfod Teams neu Zoom).

10. Rhaid i'r goruchwyliwr sicrhau bod yr ymgeisydd yn ymuno â'r cyfarfod gyda dwy ddyfais sydd â chamera wedi’i osod - e.e. gliniadur gyda gwe-gamera a ffôn symudol.

Rhaid i’r ail ddyfais gael ei gosod fel bod y goruchwyliwr yn gallu gweld yr ymgeisydd a’i weithle yn glir, gan gynnwys sgript yr ymgeisydd, yn ystod yr arholiad.

11. Rhaid i'r goruchwyliwr sicrhau nad oes gan yr ymgeisydd fynediad at unrhyw ddeunyddiau heb eu hawdurdodi yn ystod yr arholiad ac nad yw'n cyfathrebu ag unrhyw un am yr arholiad drwy gydol yr arholiad ei hun.

12. Rhaid i’r ganolfan recordio'r arholiad wedi'i oruchwylio o bell. Rhaid i'r ganolfan gadw’r recordiad a sicrhau ei fod yn dal i fod ar gael i'w arolygu tan ar ôl y dyddiad cau ar gyfer adolygu'r marcio neu tan y bydd unrhyw apêl, ymchwiliad i gamymddwyn neu ymholiad arall yn ymwneud â'r canlyniadau wedi'i gwblhau, pa bynnag sydd hwyraf.

13. Caniateir egwyliau gorffwys i ymgeisydd sydd â hawl iddyn nhw. Rhaid i'r ymgeisydd aros yn gwbl weladwy i oruchwyliaeth sain a fideo y goruchwyliwr.

14. Rhaid i aelod o staff y ganolfan allu casglu'r sgript orffenedig yn uniongyrchol gan yr ymgeisydd yn syth ar ôl iddo ei chwblhau neu ar ôl i'r arholiad ddod i ben. Ni ddylai'r ymgeisydd gael unrhyw gyfle i newid ei atebion ar ôl i'r arholiad ddod i ben. Rhaid iddo aros dan oruchwyliaeth o bell tan y bydd y papur wedi'i gasglu oddi arno. Rhaid i'r ganolfan sicrhau bod y sgript orffenedig yn cael ei dosbarthu i'r corff dyfarnu yn ôl y drefn arferol. Bydd unrhyw ymgeisydd sy'n sefyll arholiad dan oruchwyliaeth o bell yn cael ei nodi'n 'bresennol' ar gyfer yr arholiad ar y gofrestr presenoldeb.

15. Rhaid rhoi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau o geisio camymddwyn, amau camymddwyn neu gamymddwyn gwirioneddol gan ymgeisydd drwy lenwi ffurflen M1 CGC a'i hanfon dros e-bost at y corff dyfarnu perthnasol.

16. Rhaid rhoi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau o geisio camymddwyn, amau camymddwyn neu gamymddwyn gwirioneddol gan staff drwy lenwi ffurflen M2 CGC a'i hanfon dros e-bost at y corff dyfarnu perthnasol.

17. Rhaid rhoi gwybod i'r corff dyfarnu am ddigwyddiadau sy'n effeithio ar uniondeb yr arholiad, neu sicrwydd y ganolfan ynglŷn â'r arholiad, e.e. toriad mewn cysylltiad rhyngrwyd. Gweler isod am ragor o wybodaeth am y datganiad ar ôl yr arholiad.

18. Rhaid i riant/gofalwr yr ymgeisydd neu oedolyn arall fod ar gael yng nghartref yr ymgeisydd drwy gydol yr arholiad. Dylai'r unigolyn hwn gadarnhau i bennaeth y ganolfan nad oes unrhyw ddeunyddiau heb eu hawdurdodi, gan gynnwys ffonau symudol neu dechnoleg arall, ar gael i'r ymgeisydd yn ystod yr arholiad.

19. Os oes angen egwyl i fynd i'r toiled, dylai'r rhiant/gofalwr neu oedolyn arall gadarnhau cyn yr arholiad nad oes unrhyw ddeunyddiau heb eu hawdurdodi yn yr

ystafell ymolchi/toiled. Dylid caniatáu egwyliau byr i ymgeiswyr fynd i'r toiled yn ystod yr arholiad os oes angen.

## Ystyriaethau i'r ymgeisydd a'i riant/gofalwr

Er mwyn sicrhau bod modd cynnal yr arholiad sydd wedi'i oruchwylio o bell yn llwyddiannus, bydd angen y canlynol ar yr ymgeisydd:

a. lleoliad addas i sefyll yr arholiad, heb unrhyw sŵn nac ymyriadau;
b. cysylltiad rhyngrwyd dibynadwy;
c. dwy ddyfais wedi'u gwefru'n llawn sydd â mynediad at y we yn ogystal â chamerâu, er enghraifft, gliniadur a ffôn symudol. Rhaid bod modd defnyddio'r ddau ohonynt i ymuno â'r cyfarfod gorchwylio o bell;
d. cyn yr arholiad, cyfle i ymarfer y broses o osod y dyfeisiau a chysylltu â chyfarfod gan ddefnyddio'r rhaglen ddynodedig a fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer goruchwylio o bell;
e. lle y bo'n berthnasol, mynediad at ei drefniadau mynediad arferol, e.e. darllenydd, ysgrifennydd, 25% o amser ychwanegol;
f. oedolyn addas, a allai fod yn rhiant/gofalwr i'r ymgeisydd, i fod ar gael yn y cartref drwy gydol yr arholiad; a
g. dealltwriaeth o'r gofynion hyn ac y gall unrhyw faterion sy'n codi yn ystod yr oruchwyliaeth o bell sy'n tanseilio uniondeb yr arholiad olygu ei fod wedi ei annilysu.

Rhaid i ganolfannau drafod a chytuno ar y gofynion uchod gyda'r ymgeisydd a'r rhiant/gofalwr cyn yr arholiad.

## Gwneud cais am oruchwylio o bell

I wneud cais am gymeradwyaeth ar gyfer goruchwylio o bell, rhaid i'r ganolfan gyflwyno cais ar-lein gan ddefnyddio Trefniadau Mynediad Ar-lein. Bydd y cais ar-lein yn cael ei wrthod yn awtomatig a rhaid ei gyfeirio ar-lein at y corff/cyrff dyfarnu perthnasol.

Rhaid i'r ganolfan nodi'r amgylchiadau sy'n effeithio ar yr ymgeisydd a pham nad yw dewisiadau eraill yn addas.

Dim ond gyda chaniatâd pennaeth y ganolfan y gellir cyflwyno ceisiadau. Drwy gyflwyno cais ar-lein, mae pennaeth y ganolfan yn cadarnhau y bydd y gofynion sydd wedi'u nodi yn y cais yn cael eu bodloni'n llawn.

Bydd y corff dyfarnu'n penderfynu yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwyd p'un a ellir cymeradwyo'r cais am oruchwylio arholiadau o bell.

## Datganiadau ar ôl yr arholiad

### Datganiad y ganolfan

Ar ôl cwblhau'r arholiad dan oruchwyliaeth o bell, rhaid i'r ganolfan anfon datganiad ar ôl yr arholiad i'r corff dyfarnu yn cadarnhau'r canlynol:

- cwblhawyd yr arholiad yn ôl y bwriad heb unrhyw ddigwyddiadau technegol neu ddigwyddiadau eraill a allai fod wedi effeithio ar uniondeb yr arholiad; neu
- os oedd digwyddiadau technegol neu ddigwyddiadau eraill a allai fod wedi effeithio ar uniondeb yr arholiad, esboniad manwl o beth oedd y rheini.

Os bu unrhyw ddigwyddiadau, bydd angen i'r corff dyfarnu benderfynu a ellir derbyn sgript yr ymgeisydd.

Bydd canlyniad o arholiad sydd wedi'i oruchwylio o bell yn cael ei ddal yn ôl nes i'r datganiad ar ôl yr arholiad gael ei dderbyn gan y ganolfan a'i wirio gan y corff dyfarnu.

Gall corff dyfarnu hefyd ofyn am gopïau o'r fideos at ddibenion ansawdd a monitro wedi iddo dderbyn y datganiad ar ôl yr arholiad.

### Datganiad yr ymgeisydd

Ar ôl yr arholiad, rhaid i'r ganolfan gadw cofnod o ddatganiad yr ymgeisydd, gan gadarnhau'r canlynol:

- nad oedd ganddo fynediad at ddeunyddiau heb eu hawdurdodi yn ystod yr arholiad gan gynnwys, lle y bo hynny'n berthnasol, yn ystod unrhyw egwyl;
- nad oedd unrhyw gyfathrebu, gan gynnwys drwy ddulliau electronig, ag unrhyw un arall yn ystod yr arholiad, gan gynnwys, lle y bo hynny'n berthnasol, yn ystod unrhyw egwyl;
- mai gwaith yr ymgeisydd ei hun heb gymorth yw'r gwaith a gyflwynwyd.

### Manylion cyswllt y cyrff dyfarnu

| | |
|---|---|
| AQA | Irregularities-N@aqa.org.uk |
| CCEA | centresupport@ccea.org.uk 02890 261425 |
| OCR | srteam@ocr.org.uk |
| Pearson | uk.special.requirements@pearson.com |
| CBAC | GoruchwylioOBell@cbac.co.uk |